

## JONES, RICHARD (1787 - 1856?), argraffydd a chyhoeddwr llyfrau

**Enw:** Richard Jones  
**Dyddiad geni:** 1787  
**Dyddiad marw:** 1856?  
**Priod:** Catherine Jones (née Evans)  
**Plentyn:** Abraham Jones  
**Plentyn:** Jabez Jones  
**Plentyn:** Richard Jones  
**Plentyn:** Isaac Francis Jones  
**Rhiant:** Catherine Jones (née Evans)  
**Rhiant:** William Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** argraffydd a chyhoeddwr llyfrau  
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** William Llewelyn Davies

yn Nolgellau, Pontyp I, Merthyr Tydfil, Machynlleth, a Llanfyllin; ganwyd 26 Mai 1787 yn Bryntirion, Bontddu, Sir Feirionnydd, mab William Jones a Catherine (Evans).

Rhoddir llawer o fanylion am yr argraffydd a'r cyhoeddwr pwysig hwn gan [Ifano Jones](#) yn ei *Hist. of Printing and Printers in Wales*, 1925; digon felly yw rhoddi yma grynodeb o'r ffeithiau. Prentisiwyd Richard Jones yn swyddfa argraffu Thomas Williams, Dolgellau, g r y ceir manylion amdano yntau yng nghyfrol [Ifano Jones](#), daeth yn bartner gyda Thomas Williams yn 1807, a phan ymdeolodd Williams, yn 1808, yn berchennog. Priododd Catherine Evans yn Nolgellau ar 7 Mai 1809.

Richard Jones oedd argraffydd cyntaf *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, cyfnodolyn a gychwynnwyd ym mis Ionawr 1809; parhaodd i'w argraffu hyd 1811 ac wedyn o 1819 hyd 1824. Argraffodd y cylchgronau hyn hefyd: (a) *Cylchgrawn Cymru*, (b) *Y Dysgedydd Crefyddol*, (c) *Pethau Newydd a Hen*, (ch) *Tysor i Blentyn*, (d) *Yr Athraw*, (dd) *Trysorfa Rhyfeddodau*, (e) *Y Dirwestwr*. Cyhoeddodd weithiau mwy eu maint, e.e. adargraffiad, 1815, o eiriadur Saesneg - Cymraeg [John Walters](#), gweithiau cyflawn Josephus, 1819, *Beibl* yr [esgob Morgan](#), 1821, a 17 rhan o esboniad [Mathew Henry](#). Bu'r argraffydd mewn ychydig o helynt yngl n â'r dreth ar bapur yn 1824; gwerthodd ei argraffwasg i'r Wesleaid, eithr yr oedd ganddo wasg arall yn 1825. Yn 1827 sefydlodd wasg ym Mhontyp I a chadw gwasg Dolgellau i fynd; yn 1828 dechreuodd argraffu ym Merthyr Tydfil gyda [John Jenkins](#) ('Shôn Shincyn') a [Thomas Williams](#) ('Gwilym Morgannwg') yn bartneriaid iddo am gyfnod, sef hyd 1828, pryd y daeth y busnes newydd yn eiddo iddo yn gyfan gwbl (gweler [Ifano Jones](#), op. cit., am deitlau rhai o'r gweithiau a ddaeth o weisg Pontyp I a Merthyr). Torrodd y cysylltiad â Merthyr Tydfil yn 1829. Yn y cyfamser âi gwasg Dolgellau yn ei blaen; fe'i gelwid yn 'Gomerian Press,' 'Gomer-Wasg,' neu 'Y Wasg Omeraidd.' Pregethai 'r argraffydd gyda'r Wesleaid; gweithredai hefyd fel arwerthwr.

Yn 1842 gadawodd Richard Jones wasg Dolgellau yng ngofal ei deulu a sefydlu gwasg arall ym Machynlleth - honno yng ngofal ei fab ISAAC FRANCIS JONES, a'i gwerthodd, 1849, i [Adam Evans](#), ac ymfudo i U.D.A., lle y bu farw 3 Tachwedd 1850. Y flwyddyn y gwerthwyd gwasg Machynlleth oedd y flwyddyn hefyd pryd y sefydlodd Richard Jones fab arall, yntau'n RICHARD JONES, yn argraffydd yn Llanfyllin, Sir Drefaldwyn; gwerthodd Richard Jones (y mab) y wasg hon ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Bu Richard Jones y tad farw c. 1855, eithr cadwyd busnes Dolgellau ymlaen hyd 1858 gan ei weddw.

Codasai Richard Jones bedwar o'i feibion i fod yn argraffwyr - sef Isaac Francis, Richard, Jabez, ac Abraham. Brawd iddo oedd LEWIS EVAN JONES (bu farw 1860). Dysgodd yntau grefft argraffu yn Nolgellau a dechreuodd argraffu ar ei gyfrifoldeb ei hun yng Nghaernarfon yn 1814.

### Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

Enwyd y brif ffynhonnell yng nghorff yr erthygl

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734284](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

